# BookTrust Cymru: Comisiynau Amser Rhigwm Mawr Cymru 2026

## Crynodeb

**Rydyn ni'n gwahodd awduron, beirdd, ysgrifenwyr, cerddorion, perfformwyr a storiwyr plasnt i'n helpu i greu cynnwys arbennig newydd ar gyfer Amser Rhigwm Mawr Cymru 2026.**

**Rydyn ni'n cynnig hyd at dri chomisiwn o £600 yr un.**

**Dyddiad cau derbyn cynigion:** **12pm 5 Medi 2025**

Byddwn yn roi gwybod i'r ymgeiswyr llwyddiannus ar neu erbyn **12 Medi 2025**.

Rhaid i bob gwaith fod wedi'i orffen a'i gyflwyno i BookTrust Cymru erbyn **12 Rhagfyr 2025**.

## Am Amser Rhigwm Mawr Cymru

Mae Amser Rhigwm Mawr Cymru / The Big Welsh Rhyme Time yn ddathliad cenedlaethol wythnos o hyd ar gyfer rhannu rhigymau, cerddi a chaneuon yn y blynyddoedd cynnar. Ei nod yw hybu ac annog gweithgareddau rhannu rhigymau hwyliog a phleserus ar gyfer plant ifanc yng Nghymru rhwng 0 a 5 oed, yn Gymraeg a Saesneg. Mae'n cefnogi sgiliau cyfathrebu a llythrennedd cynnar ac yn ysbrydoli creadigrwydd.

**Bydd Amser Rhigwm Mawr Cymru 2026 yn digwydd rhwng 2–6 Chwefror.**
**Neges allweddol eleni fydd 'Bwrlwm y Rhigwm i Bawb'.**

Bydd plant yn cymryd rhan drwy gyfrwng ystod eang o leoliadau blynyddoedd cynnar, gan gynnwys ysgolion, llyfrgelloedd, cylchoedd chwarae, meithrinfeydd, canolfannau plant, gofalwyr plant a mwy. Bydd plant sy'n cymryd rhan yn derbyn tystysgrifau a sticeri arbennig, a chefnogir yr wythnos gan weithgareddau ar lein a chysylltiadau cyhoeddus, cystadlaethau a mwy.
Bydd teuluoedd hefyd yn cymryd rhan gartref ble gallant gael mynediad i'r holl gynnwys a grëir drwy gyfrwng gwefan BookTrust.

Lansiodd Amser Rhigwm Mawr Cymru yn 2018, a chymerodd dros 25,000 o blant ran llynedd. I ddysgu mwy a gweld cynnwys a gomisiynwyd cyn hyn, ewch i'r dudalen we yma: https://www.booktrust.org.uk/cy-gb/bigwelshrhymetime

## Am beth rydyn ni'n chwilio

Rydyn ni'n chwilio am amrywiaeth o leisiau gwahanol o Gymru i greu cynnwys hwyliog a deniadol a fydd yn annog plant i rannu a mwynhau rhigymau, cerddi a chaneuon yn ystod Amser Rhigwm Mawr Cymru, ac wedyn.

**Dylai pob comisiwn gynnwys o leiaf:**

- **un rhigwm, cerdd neu gân hwyliog a gwreiddiol a gysylltir â'r neges 'Bwrlwm y Rhigwm i Bawb' (yn ddwyieithog os yw'n bosib)**
- **perfformiad ar ffilm neu ar ffurf animeiddiad o'r rhigwm, y gerdd neu'r gân**

- **un gweithgaredd rhyngweithiol ar gyfer plant (gallai hwn fod yn fideo cyd-ddarlunio, taflen weithgaredd yn seiliedig ar y rhigwm, cerdd neu gân ac ati)**
- **portreadau pen o'r artistiaid i'w defnyddio mewn deunydd hyrwyddo**
- **o leiaf un dyfyniad**
- **bywgraffiad byr o'r artist**

Ein nod yw arddangos y fideos a'r gweithgareddau a ddetholir drwy gydol wythnos Amser Rhigwm Mawr Cymru (2 – 6 Chwefror 2026) drwy gyfrwng ein sianelau ar lein. Byddwn ni'n annog sefydliadau partner, lleoliadau blynyddoedd cynnar a theuluoedd i ddefnyddio'r cynnwys yn ystod y cyfnod hwn a'u rhannu'n ehangach. Bydd testun y rhigymau, y cerddi a'r caneuon yn cael eu defnyddio i gynhyrchu adnoddau wedi'u brandio.

Dylai'r rhigymau, y caneuon a'r gweithgareddau fod yn hwyliog a deniadol i blant 0 – 5 oed a dylent ddeffro'u dychymyg. **Gofynnwn i chi nodi, wrth gyflwyno eich cynnig, a fydd eich cynnwys ar gyfer oedran 0 – 2 ynteu 3 – 5.**

Rydyn ni am i'r cynnwys adlewyrchu amrywiaeth Cymru. Bydd yr holl adnoddau'n ddwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys Cymraeg a Saesneg, yn amlwg, a gall hefyd gynnwys rhai o'r ieithoedd eraill a siaredir yng Nghymru, gan gynnwys BSL.

## Am BookTrust Cymru

BookTrust yw'r elusen ddarllen fwyaf i blant yn y Deyrnas Unedig a'n cenhadaeth yw cael plant o gefndiroedd teuluol incwm isel a bregus i ddarllen yn rheolaidd ac o ddewis. Rydym yn canolbwyntio ar helpu plant yn y blynyddoedd datblygiadol allweddol o'u genedigaeth i'w blynyddoedd cyntaf yr ysgol gynradd.

Gyrrir gwaith BookTrust gan dystiolaeth. Mae'n gwaith ymchwil yn rhoi mewnwelediad unigryw i fywydau'r teuluoedd yr ydym yn gweithio gyda nhw, a beth sy'n gweithio er mwyn adeiladu'r arferion darllen sy'n dod â manteision ar union a gydol oes i'r plant sydd ei angen fwyaf.

Yng Nghymru, mae BookTrust Cymru yn gweithio gyda phartneriaid ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol i ddarparu ystod amrywiol o raglenni dwyieithog sy'n gwneud gwahaniaeth, ac sy'n ysbrydoli cariad at ddarllen ymysg plant, am ein bod yn gwybod y gall darllen drawsnewid bywydau.

## Ystyriaethau eraill ar gyfer y comisiynau

Uwchlaw popeth arall, dylai'r cynnwys fod yn ddeniadol i blant yn y Blynyddoedd Cynnar. Dylai hefyd fod yn apelgar i rieni / gofalwyr ac yn hygyrch i ymarferwyr i'w helpu i gael y gorau o'u sesiynau amser rhigwm.

Rhaid i'r cynnwys fod yn addas ar gyfer ei ddefnyddio mewn lleoliadau amrywiol ac yn y cartref.

Dylai'r cynnwys apelio at blant ledled Cymru o ystod o gefndiroedd teuluol a chartref, a dylai fod yn wirioneddol gynhwysol.

Ar draws y comisiynau, byddwn ni'n chwilio am gynnwys sy'n addas ar gyfer siaradwyr Cymraeg brodorol, dysgwyr Cymraeg (mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg) a phlant a theuluoedd ble mae Cymraeg neu Saesneg yn Iaith Ychwanegol iddynt.

Dylai cynnwys ar ffilm ateb gofynion canllawiau ffilmio BookTrust (gweler Atodiad 1).

## Telerau eraill

Bydd hawlfraint y comisiwn yn parhau i fod yn hawlfraint i'r crëwr a bydd y comisiwn yn ddarostyngedig i delerau ac amodau a fydd yn cael eu nodi'n llawn yn y Cytundeb Ymgynghori a gyhoeddir ar ôl dewis y comisiynau. Mae llofnod ar y Cytundeb Ymgynghori gan y Crëwr yn amod cyn i'r comisiwn fynd rhagddo.

Cydnabyddir na all pob comisiwn ateb pob galw, yn enwedig o ran iaith. Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw ymholiadau os gwelwch yn dda (manylion cyswllt isod).

Mae BookTrust Cymru'n cadw'r hawl i ddyfarnu llai na thri chomisiwn os nad yw'r ceisiadau'n addas.

Rhennir y cynnwys ar wefan BookTrust Cymru ac ar draws ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Rhennir y cynnwys â brandio BookTrust arno. Bydd BookTrust Cymru'n ychwanegu brandio i'r ffilmiau, ynghyd ag isdeitlau, os oes angen.

Bydd BookTrust Cymru'n cynghori ynghylch addasrwydd cynnwys wrth i'r comisiynau ddatblygu, a chedwir yr hawl i fynnu fod newidiadau'n digwydd er mwyn sicrhau fod y comisiynau'n ateb gofynion y briff.

## Cyllideb

Bydd BookTrust Cymru yn talu ffi un-tro o **£600** ar gyfer pob comisiwn i dalu am bob cost, gan gynnwys treuliau.

Telir y ffioedd pan fydd y gwaith terfynol yn cael ei gyflwyno, oni chytunir fel arall.

## Sut i gyflwyno cynnig

A fyddech cystal â chyflwyno cynnig byr sy'n cynnwys:

1. **Bywgraffiad byr,** yn cynnwys**:**
- Profiad a / neu arbenigedd perthnasol
- Samplau o waith blaenorol, os yw'n addas
- Profiad o weithio'n ddwyieithog, yn Gymraeg a / neu gydag ieithoedd eraill

2. **Cynnig cryno,** yn cynnwys:
- Beth rydych chi'n bwriadu'i gynnwys ar gyfer y comisiwn
- Sut mae hwn yn ateb gofynion y briff
- P'un ai fydd eich cynnwys ar gyfer oedran 0–2 ynteu 3–5 oed

3. **Unrhyw wybodaeth arall a fydd yn eich barn chi yn cefnogi eich cais**

Bernir cynigion yn erbyn y meini prawf canlynol:

1. Ansawdd y cynnig o'i gymharu â gofynion y prosiect
2. Profiad perthnasol
3. Sut y bydd y comisiynau a ddetholir yn darparu pecyn cyffrous i blant ar draws yr ystod cynnwys a gynigir

Cyflwynwch eich cynigion at: booktrustcymru@booktrust.org.uk

I drafod y prosiect, cysylltwch os gwelwch yn dda â Phil Savery:
phil.savery@booktrust.org.uk

**Atodiad 1: Canllawiau Ffilmio BookTrust**

*Canllaw cyffredinol ar gyfer holl waith ffilmio BookTrust yw hwn.*

**Ar gyfer unrhyw gynnwys ar ffilm:**

- Y fformat a ffafrir yw fideo HD (1920 x 1080 o ran 'resolution'); dylai pob ffilm gael ei saethu mewn fformat tirlun.
- Mae ansawdd sain clir yn hanfodol, a dylid dileu synau cefndirol; rydym ni'n argymell defnyddio meicroffon allanol yn hytrach nag un integredig.
- Dylid gwneud ffilmiau gan ddefnyddio trybedd neu offer tebyg.
- Dylai ffilmiau fod wedi'u goleuo'n dda ac yn rhydd o amhariad.
- Dylai lleoliadau a chefndiroedd fod yn ddi-dranglwns.

**Canllawiau technegol:**

- **Goleuo:** Gwnewch yn siŵr eich bod yn ffilmio mewn lleoliad sydd wedi'i oleuo'n dda. Dylid osgoi gadael i'ch wyneb gael ei oleuo gan sgrin cyfrifiadur pan fyddwch chi'n gweithio gyda chamera gwe, am y gall hyn roi arlliw glas nad yw'n ddeniadol.
- **Sain:** Gwnewch yn siŵr fod y sain gystal ag y gall fod os gwelwch yn dda. Mae hyn yn bwysig iawn, felly gwnewch bopeth allwch chi i gael gwared ar unrhyw sŵn cefndirol (e.e. trafnidiaeth swnllyd, pobl yn siarad, peiriant golchi, teledu, peiriant awyru ac ati).
- **Ceisiwch ddefnyddio meicroffon allanol** (h.y. nid meic mewnol iPhone) ac ewch â'r meic mor agos â phosib at ffynhonnell y sain, gan osgoi ei ddangos yn y siot.
- **Ffilmiwch mewn tirlun os gwelwch yn dda** (oni bai am Instagram)
- **Fformat:** Y fformat a ffafrir yw fideo HD ('resolution' o 1920 x 1080)
- **Lleoliad / cefndir:**
  - Gall y lleoliad fod yn unrhyw le sy'n gyffyrddus a chlyd, nid yn rhy glinigol
  - Mae'n bwysig fod pob amgylchfyd yn gredadwy / perthnasol i ystod eang o deuluoedd
  - Mae angen i gefndiroedd fod mor blaen a di-dranglwns â phosib
  - Gwisgwch beth bynnag sy'n gyffyrddus i chi. Dylid osgoi unrhyw beth sy'n dangos logos mawr, geiriau, brandio y gellir ei adnabod neu batrymau gor-lachar.

**Sut y bydd y ffilmiau'n cael eu defnyddio:**

Bydd BookTrust yn dangos ffilmiau'n llawn ar ein gwefan, ein sianel YouTube a Facebook, ac yn defnyddio clipiau byrrach ar draws y sianelau cyfryngau cymdeithasol – Facebook, Instagram, Twitter ac ati.

Byddan nhw'n aros ar ein sianelau / gwefan.

Efallai y bydd angen i ni wneud tipyn bach o waith golygu, a byddwn ni fel arfer yn dechrau a gorffen y ffilm gyda deunydd brandio BookTrust.

Noder: Ble bynnag y bo'n bosib, byddwn ni'n cynnwys cydnabyddiaethau perthnasol.